

No.

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr: J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.G.J. Morgan ac S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle, D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel); Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

239 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

240 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd) ac Y Cynghorydd S. Campbell; a V. John (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel);

241 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

242 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

243 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2022 gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau a amlinellodd y canlynol:

No.

- Mae'r adroddiad ei hun yn amlinellu'r dyletswyddau newydd ar y Cyngor oherwydd gofynion perfformiad newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf LILE) a'r gofyniad i gyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LICD) yn ogystal â chyd-fynd â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
- Allweddol i'r uchod oedd i'r Cyngor barhau i adolygu ei berfformiad, yn ogystal ag ymgynghori ac adrodd ar ei berfformiad trwy hunan-asesu, a threfnu ac ymateb i asesiad perfformiad panel unwaith ymhob cylch etholiadol. Roedd y dyletswyddau hyn hefyd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23.
- Cyfle arall a amlygwyd oedd y gallai'r Cyngor bellach ymgysylltu â charfan newydd o Aelodau etholedig, yn dilyn yr etholiadau lleol diweddar, er mwyn llunio Calendr Perfformiad Blynyddol y Cyngor (ynghlwm â'r adroddiad) a meysydd allweddol eraill, megis datblygu'r Hunan-asesiad Blynyddol o Berfformiad.
- Y gwahanol ddyletswyddau sydd i'w cyflawni gan y Cyngor, fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Amlinellwyd hefyd Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif ddarpariaethau'r Cyngor, a oedd yn cynnwys trefnu asesiad panel o berfformiad, ymateb i adroddiad asesu panel o berfformiad a nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliad arbennig a'r pwerau ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru lle mae Gweinidogion o'r farn ei bod yn debygol nad oedd y Cyngor yn cyrraedd y gofynion o ran perfformiad.
- Eglurwyd hefyd, o ran yr Adroddiad Hunan-Asesu Blynyddol ar gyfer 2021 / 22, bod y Cyngor eisoes hanner ffordd drwy nifer o dasgau cyflawni allweddol, gyda'r adroddiad drafft hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd trwy gyfeirio gan Bwyllgorau Craffu a'i fersiwn derfynol i'w gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref, gyda'r ystyriaeth derfynol gan y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd. Yn amodol ar gytundeb y Cyngor Llawn, byddai'r Adroddiad Hunan-Asesu wedyn yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol, gyda'r Cabinet hefyd yn cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Drafft Blynyddol ar gyfer 2023 / 24 (fyddai'n cael ei lywio gan ganfyddiadau'r Adroddiad Hunan-Asesu).
- Amlinellwyd y Calendr Perfformiad Blynyddol i Aelodau, gan dynnu sylw at yr amserlen gysylltiedig ac yn hanfodol, sut y gallai Aelodau gymryd rhan gyda'r rheolaeth perfformiad hyn, craffu, ac ati i brosesau eu hunain. Roedd y Gweithgor Aelodau hefyd wedi cael ei ailsefydlu a chydabuwyd pwysigrwydd Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, Arweinwyr Grwpiau a Swyddogion Allweddol y Cyngor wrth ddatblygu'r fframwaith rheoli perfformiad. Cafodd cyfres o weithdai Aelodau hefyd eu cynnig drwy gydol y flwyddyn er mwyn ategu'r Rhaglen Datblygu Aelodau gynhwysfawr.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Nodi Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Roedd y Pwyllgor Craffu, yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wedi goruchwyllo'r Calendr Perfformiad Blynyddol ac mae ei farn yn llywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

244 CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi'r canlynol i Aelodau:

- Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, darparwyd ffigyrau meincnodi dros dro i'r Cabinet ar gyfer y Cyngor. Roedd disgwyl y byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn nechrau mis Tachwedd 2022, fyddai'n dilyn yr archwiliad fyddai'n cael ei gynnal gan Archwilio Cymru.
- Roedd hi wedi bod yn flwyddyn heriol arall i'r Cyngor yn ariannol ac yn weithredol oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi darparu cymorth ariannol i'r Cyngor er mwyn talu am wariant ychwanegol yr aethpwyd iddo o ganlyniad i COVID-19 drwy Grant Caledi Brys yr Awdurdod Lleol sy'n cyfateb i ryw £15M, yn ogystal â thua £1.3M gan LIC am gymorth grant i dalu am golli incwm oherwydd y Pandemig.
- Cyfeiriodd y Rheolwr Cymorth Cyllid hefyd at yr amrywiannau cyllideb a fanylir o fewn yr adroddiad ar gyfer diwedd blwyddyn ar gyfer pob cyllideb ddiwygiedig 2021/22 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a oedd hefyd yn amlinellu'r prif resymau dros yr amrywiannau, yn ogystal â nodi'r gwahanol gyfraniadau wrth gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn.
- Mae Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 (CRT) yn cylchdroi gwarged o £5M o'i gymharu â'r diffyg cyllidebol diwygiedig o £11M, gydag amrywiant ffafriol o £16M, gyda'r amrywiant mwyaf ar y Gwariant Cyfalaf o gyllideb Cyfrif Refeniw.
- Agorodd balans wrth gefn y CRT ar £12.000M a chau ar £17.4M, oherwydd bod y defnydd arfaethedig o warchodfeydd ar gyfer gwariant cyfalaf yn is na'r disgwyl o'r blaen.
- Gellid defnyddio trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn (megis o amrywiannau ffafriol) i ariannu refeniw neu wariant cyfalaf yn y dyfodol, gyda manylion pellach am hyn, yn ymwneud â Chronfeydd wrth Gefn Cyffredinol a CRT, wedi'u darparu o fewn yr adroddiad.
- Yn olaf, cyfeiriodd y Rheolwr Cymorth Cyllid at darged effeithlonrwydd y Cyngor o £500K ar gyfer 2021/22, ac roedd y targed ar gyfer gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn £6K: yn cynnwys £4K ar Dai a Thai Preifat y Gronfa Gyffredinol a oedd ag arbediad effeithlonrwydd o £2k. Cyflawnwyd y ddau darged yn llawn.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cododd y Cyngorydd Carroll ymholiad ar drosglwyddo cronfeydd wrth gefn i dalu am y costau rhedeg amrywiol ar gyfer system teledu cylch cyfyng y Cyngor a gofyn a oedd hyn yn cynnwys offer newydd. Cadarnhawyd mai costau rhedeg yn unig oedd y trosglwyddiad hwn, gyda phrynu unrhyw offer, os yw'n berthnasol, i ddod o dan gostau cyfalaf, fel y manylir yn

No.

adroddiad Cau Cyfrifon Cyfalaf i ddilyn yn fuan. Ar ymholiad dilynol y Cynghorydd ynglŷn â pham na chafodd y costau teledu cylch cyfyng eu hariannu, esboniwyd bod yr arian camerâu cylch cyfyng wedi bod yn destun targed arbedion, fodd bynnag, oherwydd y costau a'r cyllid nas trosglwyddwyd i Heddlu De Cymru fel y cynlluniwyd, bu'n rhaid i'r Cyngor ariannu ei gostau rhedeg o hyd, ac ati.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu i siarad, a gymeradwyodd yr adroddiad a gofynnodd i'r Rheolwr Cymorth Cyllid amlinellu i'r Pwyllgor beth oedd amrywiant andwyol a ffafriol yn ei olygu o ran incwm a gwariant. Gallai termau o'r fath olygu gwahanol bethau mewn gwahanol sefyllfaoedd ariannol h.y. gallai amrywiant andwyol ddisgrifio sefyllfa lle, er enghraifft, o ran costau / gwariant, roedd gorwario wedi digwydd ac felly roedd mwy wedi'i wario nag a gyllidebwyd yn wreiddiol. Byddai amrywiant ffafriol yn yr achos hwn yn golygu bod tanwariant wedi bod gyda llai o arian yn cael ei wario nag a gafodd ei gyllidebu'n wreiddiol. I'r gwrthwyneb, ar gyfer targed incwm / cyllideb, byddai amrywiant ffafriol yn golygu bod incwm ychwanegol wedi'i gyflawni a phe bai llai na'r incwm targed wedi'i dderbyn, roedd amrywiant andwyol wedi digwydd.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD yr adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd yn cael eu nodi.
- (2) NODI cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22 fel y'i dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.

245 CAU CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid yr adroddiad i'r Pwyllgor, a nododd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Fel yn achos Cau Cyfrifon Refeniw, byddai angen i'r Cau Cyfrifon Cyfalaf gael sêl bendith y Cyngor hefyd, a fyddai'n dilyn yr archwiliad i'w gynnal gan Archwilio Cymru.
- Roedd y sefyllfa gyffredinol ar Raglen Gyfalaf 2021/22 ddMwygiedig yn amrywiant o £13.4m yn erbyn rhaglen arfaethedig o £79.8M, gyda £11.5M wedi'i lithro i mewn i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Roedd sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer y Pwyllgor hwn yn amrywiant o £4.8M yn erbyn rhaglen arfaethedig o £15.8M; manylwyd ar y rhestr o brosiectau neu gynlluniau y bu'n rhaid eu lithro i Raglen Gyfalaf 2022/23 yn yr adroddiad.

No.

- Roedd effaith COVID-19 a ffactorau allanol eraill wedi bod yn allweddol wrth osod y Cyngor yn y sefyllfa hon, gan gynnwys y costau cynyddol mewn llafur a deunyddiau yn ogystal â'r anawsterau o ran cyrchu'r rhain, gan arwain at amharu ar amserlenni arfaethedig ar gyfer prosiectau cyfalaf, ac ati. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi gofyn am ail-negodi ac 'ailosod' prosiectau cyfalaf er mwyn dod â nhw yn ôl i'r gyllideb, sy'n arwain yn anochel at oedi.
- Amlygwyd hefyd yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol o fewn y Rhaglen Gyfalaf yn yr adroddiad.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cynghorydd Perkes am yr arian llithriad ac, os na allai'r Cyngor ail-negodi costau cynyddol yn hawdd, ac ati ar gyfer prosiectau cyfalaf, byddai'r rhain yn arwain at oedi neu hyd yn oed ganslo prosiectau o'r fath. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu fod gan y Cyngor Gynllun Busnes Tai hyfyw lle roedd yr holl waith wedi'i gostio er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn addasu'n rheolaidd i hyn er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy. Ar hyn o bryd, lle roedd Gwasanaethau Tai ac Adeiladu wedi penderfynu ar gyllideb gyfalaf, pe bai'r tendrau'n dod yn ôl dros y gyllideb honno (oherwydd costau chwyddiant ar ddeunyddiau adeiladu, ac ati) ac ail-werthuso costau'r prosiect, yna byddai trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r Cyfrifydd Tai. Byddai hyn yn golygu adolygiad o oblygiadau'r penderfyniadau gwario hynny ac a oedd y prosiect yn parhau'n hyfyw. Pe bai'r prosiect yn parhau'n hyfyw, yna ceisid caniatâd i wario mwy nag oedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Gallai'r cynnydd parhaus mewn costau byw weld rhai prosiectau'n cael eu gohirio neu hyd yn oed wedi'u rhoi o'r neilltu nes y bydd cyllid ar gael. Fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau nad oedd unrhyw brosiectau cyfalaf dan fygythiad critigol ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau, yn sgil y sylwadau a wnaed yn flaenorol ar yr adroddiad Cau Cyfrifon Refeniw, hefyd at y gwariant cyfalaf a'r buddsoddiad ar adnewyddu system teledu cylch cyfyng y Fro a bod y prosiect bron wedi'i gwblhau. O ran gwariant refeniw ar redeg y system CCTV, eglurodd fod Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd ar ddull rhanbarthol i gamerâu cylch cyfyng. Yn ogystal â hynny, ar ôl trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru (CHTh), roedd y Cyngor wedi derbyn arian gan y CHTh ar gyfer rhedeg teledu cylch cyfyng a monitro costau. Fe wnaeth Cyngor Bro Morgannwg barhau i weithio gyda Chyngor Caerdydd a'r CHTh i sicrhau cyllid parhaus y gwasanaeth teledu cylch cyfyng.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – NODI'R sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

246 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI
BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (CAT) –

Amlinellodd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau, gynnydd y Cyngor yn chwarter 1 (C1) (1 Ebrill, 2022 i 30 Mehefin, 2022) tuag at gyflawni ei ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) fel y'u halinio â'i Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol, a'r prif bwyntiau oedd:

- Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.
- Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 94% (341 allan o 362) o weithgareddau arfaethedig a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, priodolwyd statws Melyn i 1% (2) o weithgareddau wedi'u cynllunio a phriodwyd statws Coch i 5% (19) o weithgareddau wedi'u cynllunio.
- O'r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 32 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 58% (18) ohonynt, statws Melyn i 13% (4) ohonynt, a statws Coch i 31% (10) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 96 o fesurau, roedd 22 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau hynny oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022/23, cafodd 67 o'r mesurau hynny eu monitro'n flynyddol ac am 7 o'r mesurau na ddarparwyd unrhyw ddiweddariad.
- Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad gwyrdd i 94% (51 allan o 54) a statws coch i 6% (3). O'r 7 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 71% (5), a statws Coch i 29% (2).
- Cyfeiriodd Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu hefyd at sawl cyflawniad a wnaed o ran perfformiad y gwasanaethau hynny a syrthiodd o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn ac a oedd yn cyd-fynd â'r pedwar Amcan Llesiant:
 - Cydweithio gyda ac i'n cymunedau: gwaith parhaus, ymgysylltu a chefnogaeth Podiau Bwyd a Gwybodaeth Penarth, yr oedd eu pwysigrwydd wedi cynyddu ers cychwyn yr argyfwng costau byw ac a oedd yn parhau i gael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y tenantiaid lleol a'r gymuned.
 - Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy:
 - agoriad ffurfiol Siop Un Stop yn Heol Holitwn, y Barri, a roddodd gymorth i bobl â phroblemau tai ac eraill cysylltiedig.
 - Cefnogi Pobl gartref ac yn eu cymuned: roedd hyn yn cynnwys y gwaith a wnaed fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Tai a'r cynllun newydd 'Gwerth yn y Fro', a ddisodlodd ac a wnaeth wella ar y gwaith a wnaed o'r blaen gan y cynllun gwirfoddolwyr Bancio Amser.
 - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd: roedd hyn yn cynnwys y gwaith a wnaed ar sefydlu tîm lleihau carbon o fewn Gwasanaethau Adeiladau i gwblhau'r Pasbortau Adeiladau i holl gartrefi'r Cyngor erbyn 2026 fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru 2 (SATC2).

No.

- Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau gyfeirio at yr eithriadau perfformiad a fanylir o fewn yr adroddiad, a'r camau gweithredu presennol neu yn y dyfodol i'w cyflawni er mwyn datrys y rhain. Er enghraifft, byddai gwaith yn cael ei wneud yn chwarter 2 er mwyn mynd i'r afael â'r eithriad perfformiad ynghylch gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwaith symudol o fewn Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Yn yr un modd, soniwyd am y gwaith a wnaed i wella canran yr aelwydydd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, gan gynnwys yr heriau perthnasol (megis polisi digartrefedd LIC ac ailddechrau hysbysiadau troi allan Adran 21 i denantiaid gan landlordiaid) a'r gwaith allweddol o amgylch y Cyngor a rhaglenni adeiladau newydd Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a oedd wedi cael effaith gadarnhaol iawn o ran darparu llety ychwanegol a lleddfu'r pwysau yn yr ardal hon.

Gwahoddwyd Aelod Cabinet y Gwasanaeth Cymdogaeth ac Adeiladau i siarad, a gyfeiriodd at y gwaith pwysig yr oedd staff Tai wedi ei wneud gyda'r Pod Bwyd a chynlluniau tebyg ym Mhenarth a mannau eraill ym Mro Morgannwg. Anogodd Aelodau'r Pwyllgor i gefnogi mentrau o'r fath, oherwydd eu pwysigrwydd yn ystod cyfnod o brisiau bwyd cynyddol, ac ati, a bu'n sôn am y gwaith a wnaed gan FareShare a sefydliadau tebyg ar y cyd â'r Cyngor ac archfarchnadoedd wrth ddosbarthu bwyd dros ben i gymunedau lleol a grwpiau banc bwyd / pod bwyd oedd ei angen. Ategodd ei bod yn bwysig i Aelodau etholedig gymryd rhan yn y cynlluniau hyn oherwydd y cynnydd parhaus mewn chwyddiant a chostau i fwyd a hanfodion eraill i drigolion, ac i ymweld â'r Pod Bwyd ym Mhenarth er mwyn gweld y gwaith yn cael ei wneud yno.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.